



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Ebrill 2018

Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014

Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn gwahodd sylwadau ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014.
Sut i ymateb	Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 4 Ebrill 2018 fan hwyraf.
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	<p>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</p> <p>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau</p>
Manylion cysylltu	<p>I gael rhagor o wybodaeth: Nathan Huish Yr Is-Adran Effeithiolrwydd Ysgolion Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: ewc.enquiries@gov.wales Ffôn: 03000 253039</p>

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Crynodeb

3

Atodiad: Atodlen 1 – Sefydliadau sydd â'r hawl i enwebu personau i'w penodi i'r cyngor

6

Crynodeb

Mae Rheoliad 6 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”) yn rhoi’r swyddogaeth o benodi aelodau i Gyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”) i Weinidogion Cymru. Mae Deddf 2014 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â chymhwysedd unigolion y gellir eu penodi a’r drefn ar gyfer penodiadau o’r fath. Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014¹ (“y Rheoliadau”) yn nodi’r trefniadau ar gyfer penodi aelodau Cyngor y Gweithlu Addysg.

Mae angen diweddarau Atodlen 2 o’r rheoliadau i sicrhau ei bod yn cwmpasu pawb sy’n cynrychioli a/neu sy’n berthnasol i’r saith categori a restrir yn Atodlen 2 o Ddeddf 2014.

Y bwriad yw cyflwyno’r diwygiadau i’r Rheoliadau erbyn mis Awst 2018 er mwyn penodi Aelodau’r Cyngor ym mis Rhagfyr 2018 i ddechrau gweithredu o fis Ebrill 2019.

1. Cefndir

1.1 Mae’n rhaid i’r Cyngor gael y sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i gefnogi’r gweithlu addysg ehangach os yw am fod yn bartner allweddol i sicrhau gwell cydlyniant a chefnogi’r agenda i godi safonau addysgu a dysgu. Mae addysg a dysgu effeithiol yn ganolog i ddiwygiadau addysg yng Nghymru. Mae safon ymarferwyr addysgu a’r rhai sy’n eu cefnogi yn ffactor allweddol wrth benderfynu ar safon addysgu a dysgu, ac o ganlyniad, y canlyniadau i ddysgwyr.

1.2 Mae Deddf 2014 yn rhoi’r cyfrifoldeb o benodi Aelodau’r Cyngor i Weinidogion Cymru. Mae Deddf 2014 hefyd yn rhoi’r grym i Weinidogion Cymru lunio Rheoliadau ynglŷn â chymhwysedd unigolion y gellir eu penodi a’r drefn ar gyfer penodiadau o’r fath.

1.3 Mae gweithdrefnau penodi cyhoeddus wedi’u cynllunio i sicrhau bod yr ymgeisydd mwyaf addas yn cael ei benodi i’r swydd; sy’n cael ei ddewis ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio gweithdrefnau teg, agored, tryloyw a phriodol. Bydd y gweithdrefnau’n dilyn egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus, a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

2. Sut ydw i’n rhoi sylwadau ar y cynigion hyn?

2.1 Mae cwestiynau penodol wedi’u rhestru yn y ffurflen ymateb ac fe’ch gwahoddir i ddarparu atebion neu roi sylwadau mwy cyffredinol. Gallwch gyflwyno atebion ysgrifenedig, neu mewn print; yn electronig; neu ar ffurf copi caled, i’r cyfeiriad yn y ddogfen hon.

3. Egwyddorion y broses benodi

3.1 Polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei busnes yn cynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus. Mae’n croesawu ac yn annog ceisiadau gan bob grŵp i sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Mae egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodiadau’n cael eu gwneud ar sail teilyngdod.

¹ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2365/pdfs/wsi_20142365_mi.pdf

3.2 Mae cyrff cyhoeddus, a benodir gan Lywodraeth Cymru, yn gwneud penderfyniadau bob dydd sy'n effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau. Fel dinasyddion, mae'n fuddiol i ni i gyd bod cyrff cyhoeddus yn cynnwys aelodau medrus, profiadol sy'n deall y cymunedau a wasanaethant.

3.3 Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau newydd yn y broses benodi, bydd disgwyl i Aelodau'r Cyngor ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r disgwyliad hwn hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau sy'n codi o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt.

3.4 Mae Deddf 2014 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Aelod weithredu fel unigolion nid fel cynrychiolwyr unrhyw sefydliad neu gorff y gallent fod yn perthyn iddo; nac unrhyw sefydliad neu gorff sydd wedi'u henwebu.

4. Materion i fynd i'r afael â nhw

4.1 Mae'r Cyngor presennol yn cynnwys pedwar aelod ar ddeg; pob un wedi'i benodi drwy broses benodi gyhoeddus gan Weinidogion Cymru. O'r pedwar ar ddeg a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, penodwyd 7 o enwebiadau gan sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn y rheoliadau. Mae rhan 1 yn cynnwys Undebau Llafur a Rhan 2 yn cynnwys grwpiau a sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu addysg.

4.2 Fel y gwyddoch, mae'n ofynnol i Weithwyr Ieuencid, Gweithwyr Cymorth Ieuencid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith gofrestru gyda Cyngor y Gweithlu Addysg ers 1 Ebrill 2017.

4.3 Roedd ymgynghoriad 2014 "*Trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi aelodau o Gyngor y Gweithlu Addysg*" yn cydnabod pan fo mwy o gategoriâu o ymarferwyr yn cael eu hychwanegu at Atodlen 2 o Ddeddf 2014, y bydd angen newid rhestr y sefydliadau a all gyflwyno enwebiadau o bosib ac y byddai yna ofyniad i ymgynghori ymhellach pe a phan fyddai hynny'n digwydd.

4.4 Mae'r Atodlen gyfredol wedi'i chynnwys yn Atodiad.

5. Manylion y diwygiadau arfaethedig

5.1 Mae angen diweddarau'r Atodlen i'r Rheoliadau i sicrhau ei bod yn cwmpasu pawb sy'n cynrychioli ac/sy'n berthnasol i'r saith categori sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 2 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd). Y categorïau yw:

- Athrawon ysgol
- Athrawon addysg bellach
- Gweithwyr cymorth dysgu ysgolion
- Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach

- Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.

5.2 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn yn benodol am awgrymiadau gan y sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector gweithwyr ieuenctid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, o ran pa sefydliadau y dylid eu hychwanegu at Atodlen 2 o'r Rheoliadau.

5.3 Bydd hyn yn sicrhau bod y sefydliadau a'r cyrff sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr yn gallu enwebu aelodau a fydd yn cynrychioli'r sector gweithwyr cymorth ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a dysgu seiliedig ar waith.

5.4 Bydd effaith ymarferol y Rheoliadau'n parhau, sef:

- Bydd Gweinidogion Cymru'n penodi'r 14 Aelod o'r Cyngor
- Bydd pob penodiad yn cael ei wneud yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
- Bydd Gweinidogion Cymru'n penodi 7 aelod yn uniongyrchol a 7 aelod o restr o enwebiadau a gyflwynwyd gan sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i'r rheoliadau newydd
- Cyn belled â phosibl, bydd Gweinidogion Cymru'n sicrhau bod 4 o'r 7 a benodir o'r rhestr o enwebiadau yn dod o'r sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1 o'r Atodlen (h.y. undebau llafur)
- Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod mwyafrif aelodau'r Cyngor (h.y. 8 neu fwy) yn unigolion cofrestredig, neu wedi bod yn ddiweddar.

5.5 Bydd yna ofyniad i ddiwygio Atodlen 2, Rhan 1 i adlewyrchu newid i enwau Undebau Llafur.

5.6 Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gredu bod cael aelodau newydd i'r Cyngor drwy enwebiadau a phenodiadau cyhoeddus uniongyrchol yn sicrhau bod aelodaeth y Cyngor yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r holl gategorïau o ymarferwyr i'w cofrestru gyda Cyngor y Gweithlu Addysg.

6. Effaith ein dull

6.1 Cafodd costau a buddion newid y broses penodiadau cyhoeddus eu hystyried fel rhan o'r broses o baratoi Asesiad o Effaith Deddf 2014. Nid oes unrhyw oblygiadau costau'n gysylltiedig â'r diwygiad hwn i'r Rheoliadau.

6.2 Fel corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus bydd y Cyngor yn destun darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Nid ydym yn rhagweld y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar faterion cydraddoldeb cyn belled bod systemau ar waith i sicrhau ystyriaeth a sylw i faterion cydraddoldeb wrth benodi aelodau i'r cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori hyn yn ein hegwyddorion, canllawiau arfer da a'n proses graffu a gydol yr ymgynghoriad hwn rydym yn gofyn am adborth ar faterion cydraddoldeb posibl yn y meysydd hyn. Bydd yr ymatebion hyn yn rhan o'r dadansoddiad sy'n llywio ein gwaith o ddatblygu ein polisi terfynol.

Atodiad: Atodlen 1 – Sefydliadau sydd â'r hawl i enwebu personau i'w penodi i'r cyngor

RHAN 1

- 1. Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (Cymru).**
- 2. Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (Cymru).**
- 3. Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau.**
- 4. Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon.**
- 5. Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yng Nghymru.**
- 6. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru.**
- 7. Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr.**
- 8. Undeb Prifysgolion a Cholegau.**
- 9. UNSAIN.**
- 10. GMB.**
- 11. Unite: Uno'r Undeb.**
- 12. Grŵp Aspect Undeb Prospect.**
- 13. TUC Cymru.**

RHAN 2

- 14. Colegau Cymru.**
- 15. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**
- 16. Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.**
- 17. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**
- 18. Cydffederasiwn Cymdeithasau Llywodraethwyr Ysgolion Cymru.**
- 19. Yr Eglwys yng Nghymru.**
- 20. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig.**
- 21. Addysg Uwch Cymru.**
- 22. Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon.**
- 23. Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.**
- 24. Cymdeithas Cymru o Gyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol**
- 25. Ffederasiwn Busnesau Bach.**
- 26. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.**